

## SFT F11

### Datblygu cynllun ar gyfer codi arian drwy gymynrodd a'i roi ar waith



#### Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chodi arian drwy hyrwyddo a cheisio cymynroddion. Bydd angen i chi gynllunio'ch dull o weithio i wireddu'r amcan(ion) codi arian yr ydych yn gyfrifol amdanynt. Mae cynllunio da'n hollbwysig ac mae angen rhoi llawer iawn o sylw iddo'n fuan yn y broses. Mae hyn yn arbennig o wir wrth godi arian drwy gymynroddion oherwydd bod rhoddion fel hyn gan amlaf yn digwydd yn sgil cysylltiad rhwng unigolyn a sefydliad sydd wedi'i feithrin dros gyfnod hir iawn.

Mae pedwar cyfnod allweddol i'r cylch codi arian - ymchwilio, cynllunio, gweithredu ac adolygu - mae rhaid ystyried pob un o'r rhain wrth i chi ddatblygu cynllun clir, cyflawnadwy i gynhyrchu cefnogaeth ar ffurf cymynroddion, gan ymgynghori â chydweithwyr a rhanddeiliaid eraill lle bo modd. Bydd yn ymwneud â sut mae adnabod darpar gymynroddwyr neu gynulleidfaoedd, y dulliau cyfathrebu a chodi arian y byddwch yn eu defnyddio, yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch a'r hyn yr ydych yn disgwyl ei gyflawni o ganlyniad. Yn y cyd-destun hwn, ni fyddwch yn gallu asesu ansawdd eich gwaith ar sail yr incwm y byddwch yn ei gynhyrchu, ond bydd angen i chi ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau mesur eraill. Mae'n debygol y bydd eich cynllun yn rhan o strategaeth gyffredinol eich sefydliad ar gyfer codi arian.

#### Mae dwy elfen

- 1 Cynllunio gweithgaredd codi arian drwy gymynrodd
- 2 Rhoi gweithgaredd codi arian drwy gymynrodd ar waith

Mae'r safon hon yn briodol ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol a fydd yn cynnal gweithrediad strategaeth codi arian gyffredinol eich sefydliad.

# SFT F11

## Datblygu cynllun ar gyfer codi arian drwy gymynrodd a'i roi ar waith

### Meini Prawf perfformiad

### Cynllunio gweithgaredd codi arian trwy gymynroddion

*Rhaid i chi allu gwneud y canlynol:*

- P1 cael eglurhad am gwmpas eich cyfrifoldebau, beth a ddisgwylir gennych o ran targedau a sut y mesurir eich perfformiad
- P2 adolygu'r amgylchedd cymynroddion, nodi tueddiadau, materion hanfodol a phatrymau rhoi a allai effeithio ar gyflawni amcanion codi arian
- P3 cynnal adolygiad o berfformiad gweithgaredd codi arian a hybu cymynroddion yn eich sefydliad yn y gorffennol, er mwyn hysbysu gweithgareddau yn y dyfodol
- P4 sefydlu amserlen, amcanion a dulliau o fesur ar gyfer y cynllun codi arian trwy gymynroddion, yn unol â gofynion sefydliadol
- P5 ymchwilio i **gymynroddwyr posibl** a chanfod posibiliadau neu segmentau addas sy'n cydweddu â'ch amcanion codi arian
- P6 dethol strategaethau cyfathrebu a cheisio priodol, a gweithio gyda'ch rheolwr llinell a chydweithwyr eraill yn unol â gofynion sefydliadol
- P7 canfod cyfleoedd i hybu cymynroddion a chynnwys y neges am godi arian trwy gymynroddion ar draws y sefydliad, gan gynnwys cydweithwyr yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
- P8 cynllunio sut mae rhoi cydnabyddiaeth i roddwyr cymynrodd ac **addunedwyr** yn unol â gofynion sefydliadol

### Rhoi cynllun ar waith ar gyfer gweithgaredd codi arian trwy gymynroddion

*Rhaid i chi allu gwneud y canlynol:*

- P9 darparu manylion yn eich cynllun ynghylch yr hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni, sut, gan bwy ac erbyn pryd
- P10 briffio cyflenwyr trydydd parti a phartneriaid eraill, cysylltu â nhw a'u rheoli yn unol â gofynion sefydliadol
- P11 trafod eich cynllun codi arian gyda'ch rheolwr llinell a chydweithwyr eraill perthnasol a rhanddeiliaid, a cheisio awdurdodiad iddo fynd rhagddo yn unol â gofynion sefydliadol
- P12 rhoi'r cynllun codi arian ar waith yn unol â'r camau a'r amserlen a nodwyd
- P13 cynnal a diweddarau cofnodion cronfa ddata yn unol â gofynion sefydliadol
- P14 monitro gweithrediad eich cynllun yn unol â gofynion sefydliadol
- P15 gwerthuso llwyddiant eich cynllun yn erbyn yr amcanion cytunedig

# SFT F11

## Datblygu cynllun ar gyfer codi arian drwy gymynrodd a'i roi ar waith

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

#### Penodol i'r cyd-destun

- K1 nodau, moeseg, diwylliant, hanes eich sefydliad yn y gorffennol a'i genhadaeth
- K2 amserlenni a chwmpas eich gwaith
- K3 yr adnoddau sydd ar gael i chi, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr, amser, arian a chyngor arbenigol
- K4 y manylion y mae angen i chi eu cynnwys yn eich cynllun, gan gynnwys
  - K4.1 yr amcanion yr ydych yn bwriadu eu cyflawni
  - K4.2 y dulliau yr ydych wedi eu dethol
  - K4.3 amserlen o weithgareddau allweddol
  - K4.4 y terfynau amser
- K5 y gefnogaeth a gynigir gan uwch gydweithwyr yn eich sefydliad, gan gynnwys ymddiriedolwyr neu aelodau'r bwrdd, uwch reolwyr ac arbenigwyr darparu gwasanaethau
- K6 pwy sy'n gorfod cymeradwyo ac awdurdodi eich cynllun a phrosesau eich sefydliad ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo
- K7 pwysigrwydd ymgynghori â chydweithwyr a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cynllun, a sut mae gwneud hynny yn effeithiol
- K8 sut mae monitro gweithrediad eich cynllun a gwerthuso'i lwyddiant
- K9 ym mha ffyrdd bydd newid demograffig a ragwelir yn effeithio ar godi arian trwy gymynroddion yn y dyfodol

*Mae angen i chi wybod a deall:*

#### Penodol i'r sector

- K10 effaith deddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymarfer ar weithgaredd codi arian drwy gymynrodd ac ymhle mae ceisio gwybodaeth am y materion hyn
- K11 patrymau rhoi rhoddwyr unigol, yn benodol, y cymhellion dros roi cymynrodd a'r pethau sy'n rhwystro pobl rhag rhoi fel hyn
- K12 rôl **cyfryngwyr proffesiynol** yn y broses gymynroddion
- K13 rôl asiantaethau ac ymgyrchoedd trydydd parti
- K14 y gwahanol fathau o roi drwy gymynrodd sydd ar gael
- K15 pwysigrwydd ceisio cymynroddion gan bob grŵp o randdeiliaid
- K16 goblygiadau rhoi drwy gymynrodd ar gyfer treth
- K17 sut mae ysgrifennu cynllun clir a chynhwysfawr ar gyfer codi arian drwy gymynroddion

*Mae angen i chi wybod a deall:*

#### Cyffredinol

- K18 sut mae cadw cofnodion o'ch gwaith

# SFT F11

Datblygu cynllun ar gyfer codi arian drwy gymynrodd a'i roi ar waith

---

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Rhestr Termau

**Cymynroddwyr** yw unigolion sy'n creu cymynrodd y bydd sefydliad yn elwa trwyddi

**Darpar Gymynroddwyr** yw unigolion a allai greu cymynrodd y bydd sefydliad yn elwa trwyddi, ond nad ydynt wedi gwneud hynny eto

**Addunedwyr** yw unigolion sydd wedi addo creu cymynrodd y bydd y sefydliad yn elwa trwyddi, ond nad ydynt wedi gwneud hynny eto

Mae **Cyfryngwyr proffesiynol** yn cyfeirio at bobl y gallai fod angen i chi dderbyn cyngor ganddynt, ac sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau arbenigol, megis cyfreithwyr ac ymgynghorwyr treth

### Cysylltiadau Allanol

Dylid darllen y Safon ochr yn ochr â Chôd Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian a'r Datganiad Rhyngwladol ar Egwyddorion Moesegol ym maes Codi Arian.

# SFT F11

Datblygu cynllun ar gyfer codi arian drwy gymynrodd a'i roi ar waith

---

**Developed by** Skills Third Sector

---

**Version number** 2

---

**Date approved** Tachwedd 2012

---

**Indicative review date** Tachwedd 2017

---

**Validity** Cyfredol

---

**Status** Gwreiddiol

---

**Originating organisation** UK Workforce Hub

---

**Original URN** SFT F11

---

**Relevant occupations** Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith; Rheolwyr ac Uwch Swyddogion; Rheolwr Busnes; Marchnata a gwerthiant; Galwedigaethau Gweinyddiaeth ac Ysgrifenyddol; Cyllid; Cyfathrebu; Cyffredinol; Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Eraill Cysylltiedig; Gweithwyr Cymunedol Gwirfoddol

---

**Suite** Codi Arian

---

**Key words** Rhoddwyr; rhoddion; anrhegion; ewyllysiau; addunedwyr; cymynroddwyr; elusennau; codi arian